Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Ffioedd Llys

## Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio ffioedd am grantiau profiant

Chwefror 2017

# Ffioedd Llys

## Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio ffioedd am grantiau profiant

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Chwefror 2017

**Cm 9426**

OGL

© Hawlfraint y Goron 2017

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu anfon llythyr i Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon neges e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn:

Court & Tribunal Fees Policy,
Post Point 3.38,
Ministry of Justice,
102 Petty France,
SW1H 9AJ.

E-bost: probatefeespolicy@justice.gsi.gov.uk

ISBN Argraffu 9781474141253
ISBN y We 9781474141260

ID 21021711 02/17

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibrau a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Pennod 1 – Crynodeb o'r Ymatebion | 5 |
| Pennod 2 – Casgliadau a'r Camau Nesaf | 10 |
| Pennod 3 – Datganiad Cydraddoldeb | 14 |
| Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr | 15 |

# Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad, *Consultation on proposals to reform fees for grants of probate*,[1] a gyhoeddwyd ar 18 Chwefror 2016.

2. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn am y cynigion canlynol:
   - cyflwyno strwythur ffioedd ar gyfer ceisiadau am grantiau profiant (neu lythyrau gweinyddu) wedi'i seilio ar werth yr ystad;
   - codi'r trothwy na fydd ffi'n daladwy o dano am geisiadau am grantiau profiant o £5,000 i £50,000; a
   - thynnu'r ceisiadau hyn o'r cynllun dileu ffioedd cyffredinol ('help i dalu ffioedd).

3. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn gofyn am farn ynghylch sut y gallai ysgutorion[2] dalu'r ffioedd arfaethedig am geisiadau am grantiau profiant a pha lwybrau a allai fod ar gael i gynnig cymorth ariannol i ysgutorion.

4. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r sylwadau a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad ac yn amlinellu casgliadau'r Llywodraeth a'r camau nesaf. Mae asesiad effaith a datganiad cydraddoldeb diwygiedig wedi'u cyhoeddi hefyd ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

## Y pwysigrwydd o ariannu'r gwasanaeth llysoedd a thribiwnlysoedd yn briodol

5. Ym mis Medi 2016, cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd ddatganiad ar y cyd na welwyd ei fath o'r blaen, lle'r oeddent yn egluro eu gweledigaeth ar gyfer system llysoedd a thribiwnlysoedd sy'n gyfiawn, yn gymesur, ac yn hygyrch.

6. Rydym yn buddsoddi bron £1 biliwn yn ein llysoedd a thribiwnlysoedd er mwyn darparu system gyfiawnder o'r radd flaenaf sydd:
   - yn darparu gofal cefnogol wedi'i dargedu ar y rheini sydd â'i angen – drwy leddfu straen diangen ar ddioddefwyr troseddau a'r rheini sy'n fwyaf bregus, a lleihau'r helbul emosiynol a brofir o ganlyniad i droseddu, marwolaeth neu ysgariad;
   - yn syml fel y bydd pobl yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio'r system eu hunain neu gyda chymorth eu cyfreithwyr rhagorol; ac
   - yn cadarnhau ac yn hyrwyddo ein henw da am ragoriaeth gyfreithiol ar lefel fyd-eang fel y gallwn barhau i ddenu busnes i'r Deyrnas Unedig.

---

[1] https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/fee-proposals-for-grants-of-probate

[2] Er mwyn eglurder, rydym yn defnyddio'r term 'ysgutorion' yn y ddogfen ymateb hon, ond dylid ei ddarllen fel ei fod hefyd yn cynnwys gweinyddwyr a benodwyd drwy lythyrau gweinyddu.

7. Mae system gyfiawnder sy'n deg ac yn ateb ei diben yn sail i bob cymdeithas wâr. Mae'r penderfyniadau a wneir ganddi'n helpu dinasyddion cyffredin i gael rheolaeth dros eu bywydau, a'r ffordd orau o ddiogelu mynediad at gyfiawnder yn y tymor hir yw drwy system llysoedd a thribiwnlysoedd sydd wedi'i hariannu'n briodol. Ers 2010, mae'r Llywodraeth wedi cymryd camau i ysgafnhau baich GLITEM ar y trethdalwr. Er hynny, mae'n costio mwy nag £1 biliwn y flwyddyn o hyd i'r Trysorlys i'w redeg – sefyllfa sy'n annerbyniol ac anghynaliadwy.

8. Mae pawb mewn cymdeithas yn elwa o reolaeth y gyfraith, ond mae unigolion sy'n defnyddio'r llysoedd sifil a theulu neu dribiwnlysoedd i ddatrys anghydfod neu orfodi canlyniad hefyd yn cael budd personol pendant o wasanaeth sy'n annibynnol, yn deg ac yn ddibynadwy. Mae traddodiad hir yn ein system gyfreithiol, yn ymestyn yn ôl i'r 13 ganrif, o godi ffioedd ar y rheini sy'n defnyddio ein llysoedd. Credwn ei bod yn rhesymol gofyn i'r rheini sy'n defnyddio'r gwasanaethau i dalu rhagor os gallant fforddio hynny.

9. Mae cynyddu effeithlonrwydd a darparu gwasanaeth gwell yn hanfodol i sicrhau bod GLITEM yn rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr, ond mae pen draw i'n gallu i leihau costau gweithredu'r system. Rydym yn rhag-weld y bydd y diwygiadau hyn i ffioedd profiant yn dod â thua £300 miliwn o incwm ychwanegol y flwyddyn – cyfraniad sylweddol at gostau rhedeg GLITEM.

# Pennod 1 – Crynodeb o'r Ymatebion

10. Cawsom gyfanswm o 853 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Ymhlith yr ymatebwyr yr oedd ffyrmiau o gyfreithwyr, cyrff proffesiynol, yr Uwch Farnwriaeth ac aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae rhestr lawn o'r sefydliadau a ymatebodd yn Atodiad A.

## Ymatebion i gwestiynau penodol

**Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno y byddai'n decach codi ffi sy'n gymesur â gwerth yr ystad o'i gymharu â chodi ffi sefydlog am yr holl geisiadau am grant profiant? Rhowch resymau.**

11. Cawsom gyfanswm o 829 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 63 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd 695 yn anghytuno. Nid oedd y 71 o ymatebwyr a oedd yn weddill yn cytuno nac yn anghytuno'n derfynol, neu roeddent yn cytuno neu'n anghytuno ag agweddau penodol.

12. Roedd yr Uwch Farnwriaeth yn cytuno â'r cynnig i fabwysiadu strwythur ffioedd cymesur, yn debyg i'r hyn oedd ar waith cyn 1999, gan eu bod yn credu bod mabwysiadu system ffioedd safonol wedi bod yn gam yn ôl.

13. Roedd ymatebwyr eraill a gytunai â'r cynnig wedi dweud:
    - ei bod yn briodol bod lefel y ffi yn gymesur â gwerth yr ystad;
    - y byddai'r strwythur ffioedd arfaethedig yn lleddfu baich anghymesur y gost am ffi'r cais am grant profiant ar ystadau o werth is; ac
    - er ei bod yn ymddangos yn decach codi ffi sy'n gysylltiedig â maint y gwaith sydd ei angen gan y Gwasanaeth Profiant i brosesu grant profiant, y byddai hyn yn achosi anawsterau gweinyddol, felly roedd cynnig y Llywodraeth yn ffordd ymarferol o sicrhau strwythur ffioedd cymesur.

14. Roedd nifer o ymatebwyr yn derbyn yr egwyddor o godi ffi wedi'i seilio ar werth yr ystad ond roedd rhai'n credu nad oedd y ffioedd arfaethedig wedi'u gosod ar lefelau priodol.

15. Y prif resymau a roddodd ymatebwyr am anghytuno â'r cynnig oedd:
    - y dylai maint y ffi gael ei bennu ar sail y gost o ddarparu'r gwasanaeth;
    - bod y gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig, ac felly'r gost i'r Gwasanaeth Profiant, yr un fath beth bynnag fo gwerth yr ystad; a
    - gan y byddai'r ffioedd arfaethedig yn cael eu gosod yn uwch na'r lefel ar gyfer adennill costau, eu bod i bob pwrpas yn fath o drethiant.

**Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno â'r cynnig i godi'r trothwy lle bydd y ffi yn dod yn daladwy o £5,000 i £50,000? Rhowch resymau.**

16. Roedd y cynnig hwn wedi'i fwriadu'n rhannol i adlewyrchu'r twf ym mhrisiau asedau ers 1999 pan osodwyd y trothwy gwreiddiol. Y bwriad oedd esemptio ystadau a oedd wedi'u prisio o dan £50,000 rhag y gofyniad i dalu ffi am gais am grant profiant, er budd i tua 25,000 o ystadau. Ni fyddai hyn yn esemptio ystadau o'r fath rhag y gofyniad i gael grant profiant (neu lythyrau gweinyddu). Gall grant profiant fod yn ofynnol beth bynnag fo gwerth yr ystad, yn ôl amgylchiadau penodol yr ystad a gofynion banciau, cymdeithasau adeiladu ac eraill.

17. Cawsom 817 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 236 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd 568 o ymatebwyr yn anghytuno. Nid oedd y 13 o ymatebwyr a oedd yn weddill yn cytuno nac yn anghytuno'n derfynol, neu roeddent yn cytuno neu'n anghytuno ag agweddau penodol.

18. Roedd yr ymatebwyr a gytunai â'r cynnig yn ei dderbyn am fod y trothwy presennol yn rhy isel ac nad oedd yn adlewyrchu gwerthoedd presennol ystadau. Er hynny, roedd nifer o ymatebwyr a awgrymodd fod y trothwy arfaethedig un ai'n rhy isel neu'n rhy uchel. Roedd y rheini a awgrymodd fod y trothwy'n rhy uchel yn cynnig ei godi i £25,000 neu £30,000 yn unig, ar yr un lefel â swm yr arian y gall banciau a sefydliadau eraill ei ryddhau heb grant profiant, os oes digon o arian parod mewn cyfrifon banc.

19. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr a anghytunai â'r cynnig hwn wedi anghytuno ar y sail bod cyfiawnhad dros godi ffi am fod gwasanaeth yn cael ei ddarparu i'r ystadau hynny, a bod budd yn deillio o hynny. Roedd cryn bryder hefyd fod y ffioedd a fyddai'n cael eu codi am ystadau o werth uwch yn cael eu gosod ar lefelau a fyddai, i bob pwrpas, yn 'sybsideiddio' yr ystadau o dan y trothwy £50,000 nad ydynt yn talu ffi.

20. Roedd rhai wedi codi mater y priodoldeb o godi ffi profiant am ran o ystad a oedd yn cael ei dal gan berson ymadawedig fel tenant ar y cyd mewn priodas neu bartneriaeth sifil wrth ei throsglwyddo i'r priod neu bartner sifil a oedd yn goroesi. Nodwyd gan ymatebwyr eraill y byddai asedau sy'n cael eu dal gan bâr priod neu bartneriaid sifil fel cyd-denantiaid yn mynd yn uniongyrchol ar ôl marwolaeth y priod neu bartner sifil cyntaf i'r priod sy'n goroesi heb fod angen grant profiant. Roedd rhai'n dadlau o blaid esemptiad tebyg rhag yr angen i dalu ffi profiant mewn achosion lle'r oedd ystadau'n cael eu dal rhwng dau briod neu bartner sifil fel tenantiaid ar y cyd, lle'r oedd y priod sy'n goroesi'n etifeddu'r ased cyfan.

**Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno â chynigion y llywodraeth ar gyfer codi ffioedd am geisiadau am brofiant sydd wedi'u dangos yn Nhabl 1? Rhowch resymau.**

21. Cawsom 831 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 13 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd 810 yn anghytuno. Nid oedd yr 8 o ymatebwyr a oedd yn weddill yn cytuno nac yn anghytuno, neu roeddent yn cytuno neu'n anghytuno'n rhannol ar y strwythur ffioedd.

22. Roedd yr ymatebwyr a gytunai â'r bandiau arfaethedig yn eu derbyn oherwydd:

- ei bod yn golygu y byddai 58% o ystadau'n esempt rhag yr angen i dalu ffi am gais am brofiant; ac

- ei bod yn deg y byddai'r rheini sydd ag ystadau o werth uwch yn talu mwy, ac y byddai'r incwm o'r ffioedd yn fuddsoddiad i'w groesawu yn y gwasanaeth llysoedd a thribiwnlysoedd.

23. Roedd ymatebwyr eraill a gytunai wedi cytuno ar yr amod:

- bod rhagor o fandiau'n cael eu hychwanegu i leihau'r camau rhwng bandiau; a/neu
- fod y bandiau dros £300,000 yn cael eu hadolygu am fod y ffioedd arfaethedig yn rhy uchel.

24. Roedd nifer o ymatebwyr a anghytunai yn dweud bod y ffioedd a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad yn rhy uchel, yn gynnydd rhy fawr ar y ffioedd presennol ac nad oedd cyfiawnhad drostynt o'u hystyried ochr yn ochr â'r gost weinyddol i'r Gwasanaeth Profiant am roi grant. Roedd rhai'n dadlau ar sail yr egwyddor na ddylai'r Llywodraeth osod ffioedd uwch. Roedd rhai hefyd yn dadlau na ddylid codi ffioedd mewn un rhan o'r gwasanaeth llysoedd a thribiwnlysoedd i drawsariannu rhannau eraill o'r system.

25. Cytunai rhai ymatebwyr fod cyfiawnhad dros osod ffioedd uwch, ond roeddent yn credu y dylai'r ffi uchaf gael ei gosod ar lefel is. Dywedodd rhai ohonynt fod yr holl ffioedd yn rhy uchel ar y sail y byddai rhai ystadau'n 'dlawd o ran arian parod ac yn gyfoethog o ran asedau' ac felly heb y gallu i dalu'r ffi.

26. Roedd sylwadau eraill gan ymatebwyr a anghytunai yn cynnwys anfodlonrwydd ynghylch lefel y gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd gan y Gwasanaeth Profiant ac amharodrwydd i dalu 'rhagor am yr un peth'.

27. Yn ogystal â hyn, roedd rhai ymatebwyr yn dadlau y byddai'n annheg cyfrifo'r ffi profiant ar sail gwerth yr ystad cyn talu treth etifeddiant. Yn hytrach, roeddent yn credu y dylai treth etifeddiant gael ei hystyried yn gyntaf, cyn cyfrifo'r ffi profiant.

**Cwestiwn 4: A oes ffyrdd priodol eraill o helpu ysgutorion i dalu'r ffi a/neu enghreifftiau o fanciau neu sefydliadau ariannu sy'n arfer helpu â materion ariannol cyn rhoi'r grant profiant? Darparwch fanylion.**

28. Eglurodd rhai ymatebwyr bod y term 'benthyciad pontio' dim ond yn cael ei ddefnyddio fel arfer yng nghyd-destun trawsgludo. Yn yr ymgynghoriad, roedd y cyfeiriad at 'fenthyciad pontio' wedi'i fwriadu i gyfeirio at fenthyciad personol tymor byr neu fenthyciad i ysgutor a gafodd ysgutor i dalu'r ffi cyn rhoi'r grant profiant a datod yr asedau. Rydym yn deall bod hwn yn cael ei alw fel arfer yn 'fenthyciad profiant' er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n bennaf mewn cysylltiad â threth etifeddiant.

29. Cawsom 803 o ymatebion i'r cwestiwn hwn a'r prif bryder a godwyd oedd y byddai'r ffioedd arfaethedig y tu hwnt i allu nifer mawr o ysgutorion i'w talu o'u hadnoddau personol. Fodd bynnag, gan gofio y byddai 98% o ystadau'n talu £4,000 neu lai o dan ein cynigion (yn debyg i'r gost gyfartalog am angladd), awgrymwyd y byddai'r ysgutor yn gallu cael gafael ar yr arian yn y rhan fwyaf o achosion drwy un o'r ffyrdd canlynol:

- lle mae arian ar gael, dylai'r ffi gael ei thalu'n uniongyrchol i GLITEM o gyfrif(on) banc neu gymdeithas adeiladu yr ymadawedig. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, mae data Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn awgrymu mai arian parod yw 25% o ystadau ar gyfartaledd, ac mae hyn yn awgrymu y bydd arian parod ar gael yn aml i'w ryddhau gan fanciau a chymdeithasau adeiladu ar ôl cymhwyso eu gweithdrefnau asesu risg eu hunain; ac

- os nad oes digon o asedau hylifol yn ystad yr ymadawedig, roedd ymatebwyr yn awgrymu y dylai fod yn bosibl i'r ysgutor gael benthyciad, os yw ei amgylchiadau personol a'i statws credyd yn caniatáu hynny. Er bod ymatebwyr yn cydnabod bod hyn yn digwydd yn barod mewn perthynas â threth etifeddiant, mynegwyd pryderon bod y cyfraddau llog ar fenthyciadau tymor byr yn aml yn afresymol.

30. Yn fwy cyffredinol, roedd ymatebwyr am weld unioni'r anghysondebau yr oeddent yn eu gweld yn y sector bancio ac ariannol. Dywedodd un ymatebwr fod gwahaniaethau sylweddol yn y ffyrdd y mae deiliaid asedau'n helpu i ryddhau arian.

31. Mynegwyd y farn y byddai dull mwy unffurf o weithredu ar draws y sector yn helpu ysgutorion i gyflawni eu rôl fel ysgutor oherwydd gallent deimlo eu bod o dan anfantais fel arall.

32. Yn Chwefror 2016, cyhoeddodd Cymdeithas Bancwyr Prydain 'Bereavement Principles'[3] a gymeradwywyd gan y banciau mawr, lle nodwyd y byddai ffyrmiau'n ceisio caniatáu gwneud taliadau angenrheidiol fel costau angladd a ffioedd profiant o gyfrifon yr ymadawedig cyn rhoi grant profiant, yn ôl amgylchiadau'r unigolyn. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cynnal nifer o gyfarfodydd â Chymdeithas Bancwyr Prydain a Chymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu ac mae'r ddau gorff masnach hyn wedi cytuno i helpu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i lunio canllawiau i helpu ysgutorion drwy roi gwybodaeth am brofiant a thalu'r ffioedd newydd.

**Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno â'r cynnig i dynnu ffioedd grant profiant o'r cynllun dileu ffioedd? Rhowch resymau.**

33. Cawsom 537 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 141 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd 191 o ymatebwyr yn anghytuno. Roedd 205 o ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno neu a oedd wedi mynegi barn amodol.

34. Roedd yr ymatebwyr a gytunai yn teimlo na fyddai angen grant profiant heblaw lle'r oedd asedau yn yr ystâd ac, oherwydd hynny, y byddai adnoddau ar gael ar gyfer ffi'r cais am grant profiant. Aeth rhai ymatebwyr yn bellach ar y pwynt hwn a chynnig y dylai ysgutorion sydd heb arian parod i dalu eu hunain allu peri i fanciau neu sefydliadau eraill ryddhau'r arian sydd ei angen. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, byddai'r penderfyniad i ryddhau neu fenthyca arian yn amodol ar bolisïau ac asesiadau risg y banc cysylltiedig, felly gallai'r arfer amrywio rhwng sefydliadau.

35. Roedd ymatebwyr hefyd yn credu y byddai cydberthynas rhwng nodweddion demograffig yr ysgutorion sy'n fwyaf tebygol o fod ag angen cymorth gan y cynllun dileu ffioedd a'r ystadau hynny sy'n werth llai na £50,000, ac felly y byddai'r cynnig i godi'r trothwy yn eu harbed rhag y gofyniad i dalu ffi.

36. Roedd yr ymatebwyr a anghytunai wedi anghytuno am eu bod yn credu y byddai ysgutorion yn wynebu problem o ran llif arian parod am na fyddai perthynas rhwng gwerth yr ystad a sefyllfa ariannol yr ysgutor (na fydd o bosibl yn fuddiolwr hyd yn oed). Byddai'r broblem hon yn waeth yn achos ystadau sy'n cael eu hystyried yn 'dlawd o ran arian parod ac yn gyfoethog o ran asedau'.

3 https://www.bba.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/BBA01-458427-v1-Bereavement_Principles.pdf

37. Roedd rhai ymatebwyr a fynegodd farn rannol wedi gwneud hynny am eu bod yn cytuno â'r cynnig i dynnu ffioedd cais am grant profiant o'r cynllun dileu ffioedd cyffredinol ond yn credu bod angen rhwyd achub ar gyfer taliadau eithriadol.

38. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid galluogi ffyrmiau o gyfreithwyr i wneud taliad gohiriedig, er enghraifft, dri mis ar ôl rhoi'r grant profiant. Byddai hyn o fantais i'r ysgutorion sy'n dewis cyfarwyddo cyfreithiwr i weithredu ar eu rhan.

**Cwestiwn 6: Byddem yn croesawu sylwadau am ein hasesiad ym Mhennod 1 o effeithiau'r cynigion ar y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Byddem yn croesawu'n enwedig unrhyw ddata neu dystiolaeth sy'n helpu i ategu'r sylwadau hyn .**

39. Cawsom 246 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Nid oedd unrhyw ddata neu dystiolaeth sylweddol mewn unrhyw ymatebion.

40. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr wedi gwneud y sylw cyffredinol nad oeddent yn credu y byddai'r cynigion yn cael effaith anghymesur ar ysgutorion sydd ag unrhyw nodweddion gwarchodedig.

41. Cyfeiriodd 40 o ymatebwyr at effeithiau ar ysgutorion â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: anabledd, oed a statws priodasol.

42. Credai ymatebwyr fod ysgutorion anabl yn fwy tebygol o fod ar incwm isel neu sefydlog na chymheiriaid a oedd heb anabledd. Awgrymwyd hefyd y byddai ysgutorion anabl yn gallu cael bod yr her o ddelio â ffioedd uwch yn faich ychwanegol ar ben ymdopi â'u hanabledd.

43. O ran oed, credai ymatebwyr y byddai ysgutorion wedi ymddeol yn llai abl i ddod o hyd i arian i dalu ffi'r cais am grant profiant ac felly y byddai'r cynigion yn cael effaith fwy anffafriol arnynt.

44. Nid oedd gweddill yr ymatebwyr, a anghytunai â'n hasesiad cydraddoldeb gwreiddiol, wedi cyfeirio at nodwedd warchodedig benodol ond roeddent yn credu y byddai effaith anffafriol ar bobl sydd ar incwm isel, gan na fyddent yn gallu talu'r ffi.

# Pennod 2 – Casgliadau a'r Camau Nesaf

## Casgliadau

45. Fel y dywedodd yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus a'r Uwch-lywydd Tribiwnlysoedd yn eu datganiad ar y cyd ym Medi 2016, mae gennym system gyfiawnder sy'n destun cenfigen drwy'r byd, ond rhaid i ni barhau i fuddsoddi ynddi er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n gyfiawn, yn gymesur ac yn hygyrch. Er mwyn cynnal yr egwyddorion hynny, mae'n hollbwysig bod GLITEM yn parhau i gael ei ariannu'n briodol. Mae'r cyhoedd yn cael budd pendant a gwirioneddol o ddarparu adnoddau priodol i GLITEM ac mae'n parhau i gynnig hyder i bobl wrth ddatrys eu materion personol a phroffesiynol.

46. Mae'n ofynnol i'r Arglwydd Ganghellor roi sylw i nifer o ffactorau cyn pennu ffioedd mwy ar lefel sy'n uwch na chost y gweithrediadau y maent yn cael eu codi amdanynt, sef:

- na cheir gwrthod mynediad i'r llysoedd (o dan adran 92(3) o Ddeddf Llysoedd 2003);
- sefyllfa ariannol y gwasanaeth llysoedd a thribiwnlysoedd, yn cynnwys costau a ysgwyddir nad yw incwm o ffioedd yn talu amdanynt (o dan adran 180(3)(a) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014);
- cystadleurwydd y farchnad gwasanaethau cyfreithiol (o dan adran 180(3)(b) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014).

47. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus iawn. Mae swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn ddiolchgar am sgyrsiau manwl a gafwyd â nifer o ymatebwyr, yn cynnwys Cymdeithas Bancwyr Prydain, Cymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu, a Chymdeithas Ymarferwyr Ymddiriedolaethau ac Ystadau.

48. Rydym yn deall ac wedi rhoi sylw manwl i'r dadleuon a amlinellwyd gan ymatebwyr ac sydd wedi'u crynhoi ym Mhennod 1 o'r Ymateb hwn. Yn benodol, rydym wedi rhoi sylw i'r farn na ellir cyfiawnhau'r codiadau arfaethedig o'u hystyried ochr yn ochr â'r gost i'r Gwasanaeth Profiant am weinyddu ceisiadau am grantiau profiant. Rydym hefyd wedi ystyried yn ofalus a yw'r strwythur a bandiau ffioedd a gynigiwyd yn Nhabl 1 o'r ddogfen ymgynghori yn briodol, gan gofio'n enwedig y dadleuon gan ymatebwyr ynghylch y ffi o ddim a gynigiwyd ar gyfer ystadau sydd wedi'u prisio hyd at £50,000 a'r ffioedd y rhagwelir eu cael am ystadau o werth uwch.

49. Ar ôl ystyried yn ofalus, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu mynd ymlaen â'r cynigion fel a ganlyn:

- bydd y trothwy na fydd ffi'n daladwy o dano am geisiadau am grantiau profiant yn codi o £5,000 i £50,000;
- bydd y ffioedd yn cael eu gweithredu ar sail strwythur o fandiau, gan gynyddu'n unol â gwerthoedd ystadau fel y dangoswyd yn Nhabl 1 o'r ddogfen ymgynghori;
- bydd ffioedd profiant yn cael eu tynnu o'r cynllun dileu ffioedd cyffredinol ('help i dalu ffioedd') ond bydd darpariaeth o hyd i ddileu ffioedd mewn amgylchiadau eithriadol yn ôl disgresiwn yr Arglwydd Ganghellor, yn benodol, lle mae'r ysgutor

yn dangos ei fod wedi rhoi cynnig ar bob ffordd resymol o dalu am ffi'r cais am grant profiant ac y byddai'n profi caledi gormodol pe na fyddai'r ffi yn cael ei dileu. Bydd y Gwasanaeth Profiant hefyd, drwy roi grant profiant cyfyngedig, yn gallu darparu mynediad cyfyngedig i ysgutorion at asedau'r ystad, er mwyn talu'r ffi angenrheidiol yn unig.

## Tabl 1: Strwythur ffioedd newydd

| **Gwerth yr ystad (cyn talu treth etifeddiant)** | **Y gyfran o'r holl ystadau yng Nghymru a Lloegr[4]** | **Ffi Arfaethedig** |
|---|---:|---:|
| Hyd at £50,000 neu'n esempt rhag y gofyniad am grant profiant | 58% | £0 |
| Yn fwy na £50,000 ond nid yn fwy na £300,000 | 23% | £300 |
| Yn fwy na £300,000 ond nid yn fwy na £500,000 | 11% | £1,000 |
| Yn fwy na £500,000 ond nid yn fwy nag £1 miliwn | 6% | £4,000 |
| Yn fwy nag £1m ond nid yn fwy nag £1.6 miliwn | 1% | £8,000 |
| Yn fwy nag £1.6 miliwn ond nid yn fwy na £2 miliwn | 0.3% | £12,000 |
| Yn fwy na £2 miliwn | 0.5% | £20,000 |

50. Er mwyn i'n system llysoedd a thribiwnlysoedd barhau i ddarparu mynediad at gyfiawnder yn y tymor hir, rhaid i ni ystyried ffyrdd o sicrhau bod GLITEM yn cael ei ariannu'n ddigonol yn awr ac yn y dyfodol. Un agwedd ar hyn fydd ystyried y ddadl dros gynyddu ffioedd llysoedd a thribiwnlysoedd. Er bod y Llywodraeth yn deall pryderon ymatebwyr ynghylch lefel y ffioedd arfaethedig, mae'r cynnydd hwn yn angenrheidiol.

51. Mae adran 180 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 yn darparu bod pu er gan yr Arglwydd Ganghellor i osod ffioedd uwch. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, ac yng nghyd-destun costau rhedeg cyffredinol GLITEM, rydym yn credu ei bod yn deg ac angenrheidiol o hyd fod y pu er statudol hwn yn cael ei ddefnyddio i godi ffioedd uwch ar yr ystadau hynny sy'n gallu fforddio cyfrannu mwy.

52. At hynny, o dan ein cynigion, ni fydd yr un ystad yn talu ffi sy'n fwy nag 1% o'i gwerth. Byddai 92% o ystadau'n talu £1,000 neu lai, 98% yn talu £4,000 neu lai a llai na 2% o ystadau'n talu rhwng £8,000 a £20,000.

4 Mae'r cyfrannau hyn ychydig yn wahanol i'r rheini a gyhoeddwyd yn y papur ymgynghori. Y rheswm am hyn yw ein bod wedi diweddaru'r data sylfaenol a ddarparwyd gan Cyllid a Thollau EM ar ddosbarthiad ystadau.

53. Rydym wedi gwrando ar bryderon ymatebwyr a oedd yn credu y byddai lefel y ffioedd yn gallu cyfrannu at sefyllfa lle byddai ysgutorion ar eu colled neu'n profi caledi ariannol os nad oedd modd rhyddhau adnoddau ariannol yn gynnar neu os oeddent yn annigonol. Fel y nodwyd uchod (ym mharagraff 322) mae Cymdeithas Bancwyr Prydain a Chymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu wedi bod mewn trafodaethau â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad. Ymhlith y prif bwyntiau a drafodwyd oedd y gallu i ryddhau arian o gyfrif banc yr ymadawedig, mewn sefyllfa lle nad yw'n ofynnol cael grant profiant a hefyd i dalu am y cais os bydd yn ofynnol ei gael; ac argaeledd cynhyrchion credyd i ysgutorion.

54. Credwn y bydd y ffyrdd safonol o dalu'r ffi gan ysgutorion yn cynnwys defnyddio:

- **Arian parod yn ystad yr ymadawedig**, os caiff ei ryddhau gan y banc neu gymdeithas adeiladu. Mae data a gafwyd gan Cyllid a Thollau EM yn awgrymu mai arian parod yw 25% o ystadau ar gyfartaledd. Roedd un ymatebydd, ffyrm o gyfreithwyr, wedi dadansoddi ffeiliau achos ei gleientiaid i ganfod a fyddai digon o arian parod ar gael gan ystadau, ar y cyfan, i dalu'r ffi arfaethedig, ac wedi cael ar sail sampl fach o 40 o ystadau, mai dim ond 25% a fuasai heb ddigon o arian.
- **Asedau personol yr ysgutor**, gan gofio mai dim ond dros dro y byddai ar ei golled ac y byddai'n gallu hawlio'r ffi yn ôl fel credyd yn erbyn yr ystad.
- Cymorth gan fuddiolwyr yr ystad.
- **Benthyciad** (yn dibynnu ar statws credyd yr ysgutor).
- Gellid penodi **cyfreithiwr neu gwmni profiant proffesiynol** i weithredu ar ran yr ysgutor, a allai fod yn barod i dalu'r ffi yn y lle cyntaf.
- Mae'n bosibl y bydd **ysgutor arall** wedi'i enwi yn yr ewyllys a fydd â digon o arian wrth law, neu well statws credyd, ac felly mewn gwell lle i weithredu.

55. Ymhlith y cynigion eraill a gyflwynwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad am ffyrdd o dalu, y bydd angen eu hystyried ymhellach, yr oedd:

- Os oedd **polisi yswiriant bywyd** gan yr ymadawedig, yn enwedig un wedi'i ddal mewn ymddiriedolaeth, gellid defnyddio blaenswm o'r arian i dalu'r ffi gan gymryd un ai bod buddiolwr yr ymddiriedolaeth hefyd yn ysgutor yr ewyllys, neu y byddai buddiolwr yr ymddiriedolaeth yn fuddiolwr o dan yr ewyllys ac felly'n barod i gynnig arian i helpu;
- Fel sy'n digwydd yn achos treth etifeddiant, awgrymodd un ymatebydd y gellid defnyddio **stoc NS&I neu Lywodraeth Prydain** sydd wedi'i dal yn ystad yr ymadawedig i dalu'r ffi. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymchwilio i'r opsiwn hwn;
- Awgrymodd un ymatebydd y byddai darparwyr **pecynnau angladd** yn gallu datblygu cynnyrch a oedd yn cynnwys elfen ar gyfer rhyddhau arian yn gynnar i dalu ffi'r cais am grant profiant.

56. Mae egwyddorion profedigaeth Cymdeithas Bancwyr Prydain a Chymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu yn cymell aelodau i ymdrechu i gwrdd ag anghenion penodol y rhai sydd mewn galar, i'w trin gyda thosturi a pharch, ac i ganiatáu taliadau angenrheidiol lle mae hynny'n bosibl, o dan y gyfraith. Nid yw hyn yn warant y bydd arian yn cael ei ryddhau o gyfrif banc yr ymadawedig heb gael neu wrth ddisgwyl cael grant profiant – bydd yn rhaid ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau. Er hynny, rydym yn credu bod hyn yn gadarnhad gwerthfawr o ddymuniad banciau a chymdeithasau

adeiladu i helpu ysgutorion a rhai mewn galar lle bynnag y gallant ac rydym yn rhag-weld y bydd hyn yn ymarferol ym mwyafrif yr achosion. Mae'r ddau sefydliad wedi cytuno i helpu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i lunio canllawiau i ysgutorion sy'n gwneud cais am brofiant.

57. Bydd rhai ystadau sy'n 'dlawd o ran arian parod ac yn gyfoethog o ran asedau', ond rydym yn credu y bydd ysgutorion yr ystadau hynny'n gallu cael arian drwy un o'r dulliau uchod. Os bydd yr ystad yn werth mwy na band y gyfradd 'dim', neu fand newydd y gyfradd 'dim' preswyl, mae'n debygol y bydd yr ysgutor eisoes yn y sefyllfa lle mae'n gofyn am arian i dalu'r dreth etifeddiant a fydd yn ddyledus. Nid ydym yn credu y bydd y ffi profiant arfaethedig yn rhwystro mynediad at gyfiawnder ac, yn y pen draw, nid yw neb yn gorfod bod yn ysgutor – byddai'n gallu gwrthod bob amser.

58. Mewn amgylchiadau eithriadol lle nad yw ysgutorion wedi gallu cael arian i dalu'r ffi mewn unrhyw un o'r ffyrdd hyn, bydd y Gwasanaeth Profiant yn gallu darparu mynediad cyfyngedig i ysgutorion at asedau'r ystad er mwyn talu'r ffi angenrheidiol yn unig, drwy grant profiant cyfyngedig.

59. Credwn fod cyfiawnhad dros dynnu ffioedd profiant o'r cynllun dileu ffioedd cyffredinol am nad yw'n briodol i'r ffi gael ei dileu lle mae'r anhawster yn ymwneud â llif arian parod yn hytrach na'r gallu i'w fforddio. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd achosion eithriadol lle mae'r ysgutor wedi gwneud pob ymdrech rhesymol i sicrhau arian i dalu'r ffi, lle nad yw grant cyfyngedig ar gael a lle byddai'r ysgutor yn profi caledi ariannol gormodol drwy dalu, neu gellir cael amgylchiadau eithriadol eraill. Mewn achosion o'r fath, gall yr Arglwydd Ganghellor ddefnyddio ei bu er disgresiynol i ddileu'r ffi.

60. O ran cystadleurwydd y farchnad gwasanaethau cyfreithiol, ceir tua 270,000 o geisiadau am grant profiant bob blwyddyn ac, o'r rhain, mae ychydig llai na 40% yn cael eu gwneud gan geiswyr personol ar hyn o bryd. Felly, ar hyn o bryd, mae mwyafrif y ceisiadau'n cael eu gwneud gan gyfreithwyr. Awgrymodd rhai ymatebwyr mai un ffordd o dalu'r ffi fyddai i'r ysgutor benodi cyfreithiwr i'w gynrychioli, ac i'r cyfreithiwr dalu'r ffi yn y lle cyntaf. Mae'n bosibl na fyddai hyn yn boblogaidd ymysg cyfreithwyr yn gyffredinol ond fe allai gynyddu lefelau gwaith.

61. Roedd ymatebwyr eraill, yn enwedig cyfreithwyr a'r cyrff sy'n eu cynrychioli, wedi mynegi pryderon y gallai ysgutorion deimlo bod pwysau arnynt i arbed arian mewn lleoedd eraill er mwyn talu'r ffi, ac felly y byddent yn dewis gwneud cais eu hunain yn hytrach na thrwy gyfreithiwr. Gan edrych ar hyn ochr yn ochr â'r diwygiadau sy'n mynd ymlaen yn GLITEM i symleiddio prosesau ar gyfer yr unigolyn, mae perygl y bydd y lefelau gwaith yn gostwng wrth i gyfran y ceiswyr personol gynyddu. Fodd bynnag, nid oes data ar gael ar hyn o bryd i gyfrifo'r effaith ddichonol hon.

## Y Camau Nesaf

62. Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno'r offeryn statudol sydd ei angen ar gyfer y cynlluniau sydd wedi'u hamlinellu uchod.

# Pennod 3 – Datganiad ar Gydraddoldebau

63. Mae'r bennod hon yn ymdrin â dyletswyddau'r Arglwydd Ganghellor o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac ochr yn ochr â'r ddogfen hon rydym wedi cyhoeddi Datganiad Cydraddoldeb ar wahân.

64. Nid ydym yn credu y byddai'r ffioedd hyn am gais am grant profiant yn gwahaniaethu'n uniongyrchol o fewn ystyr y Ddeddf gan y byddent yn gymwys i'r un graddau i bob ceisydd ac ni chredir y byddent yn arwain at drin pobl yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchodedig.

65. Rydym hefyd wedi ystyried a fyddai'r ffioedd hyn yn cael effaith anghymesur ar unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig o'u cymharu â'r rheini sydd hebddi, ac nid ydym yn credu y byddant. Er hynny, rydym wedi ystyried a fyddai ceiswyr sydd ag incwm ariannol is yn ei chael yn fwy anodd talu'r ffi yn y lle cyntaf. Mae dadansoddiad o ddata o Arolwg o Incwm Cartrefi yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dangos bod unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig penodol (yn cynnwys anabledd, gru p ethnig ac oed) yn fwy tebygol o fod ag incwm gwario aelwydydd is, a gallai hyn effeithio ar eu gallu i dalu'r ffi yn y lle cyntaf.

66. Credwn y bydd unrhyw anhawster ychwanegol wrth dalu'r ffi yn un dros dro yn unig; yn y pen draw bydd yr ysgutor yn gallu adennill y ffi profiant o'r ystad, ac mae nifer o ffyrdd i'r ysgutor sicrhau arian i dalu'r ffi yn y lle cyntaf, yn cynnwys drwy grant profiant cyfyngedig. Mewn amgylchiadau eithriadol lle nad yw'r un o'r dulliau hyn yn bosibl, bydd pu er o hyd gan yr Arglwydd Ganghellor i ddileu'r ffi er mwyn sicrhau na fydd unrhyw ysgutor heb y gallu i wneud cais am brofiant am nad yw'n gallu fforddio'r ffi.

67. Yn ystod y cyfnod ymgynghori roeddem wedi gofyn am unrhyw sylwadau, data neu dystiolaeth arall am unrhyw effeithiau dichonol. Erbyn diwedd yr ymgynghoriad, nid oeddem wedi cael unrhyw ddata neu dystiolaeth. Mae crynodeb o ymatebion ac o farn ymatebwyr ar y pwynt hwn ym Mhennod 2.

68. Mae rhagor o fanylion am ein hystyriaeth i'r effeithiau ar gydraddoldeb yn y Datganiad Cydraddoldeb sydd gyda'r ddogfen hon.

## Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr

A F Hill Solicitor
A Halsall & Co
Abacus
Abs Solicitors LLP ABS
Accountancy & IFA
Adams & Remers LLP
Affinity Estate Planning
Alexander Elliston Marks
AMD Solicitors
Amicus Law
Andrew & Co LLP
Anglia Research
Ansons LLP solicitors
Anthony Collins Solicitors
Antony A Holmes Solicitors
Aplins Solicitors
APS Legal
Archers Law LLP
Ashfords LLP
AW Tax Service Cyf
B P Collins LLP
B White & Co
Barker Gotelee
BBE Law
Beaty & Co
Bedell Cristin
Bell and Buxton
Bells Solicitors Cyf
Bentley Solicitors Cyf
Berry & Lamberts Solicitors
Berwins Solicitors
Bircham Dyson Bell LLP
Bird Wilford and Sale Solicitors

Birkett Long LLP

Blake Morgan LLP

Blaser Mills solicitors

Blocks Legal LLP

Blue Cross

Bolt Burdon Solicitors

Bond Dickinson

Boodle Hatfield

Bowcock Cuerden LLP

Boyes Sutton & Perry Solicitors Cyf

Boyes Turner LLP

Brabners

Bridge McFarland Solicitors

Brutton & Co solicitors

BSG Solicitors

Buzzacott LLP

Bwrdd Gweithredol Barnwrol

Cancer Research UK

Capital Allocation Cyf

Cardinal Wills Cyf

Caring Legal Services – Sole Trader, Legal Executive Lawyer

Caroline Bielanska Consultancy

Castle Law

Chafes Solicitors LLP

Chambers Fletcher

Chambers Rutland & Crauford

Chattertons Solicitors

Chesterton House Legal Services LLP

Chesworths Solicitors

Child and Child Solicitors

Clarke Willmott LLP

Clough & Willis

Cooke Painter Cyf

Co-operative Legal Services

Country Land and Business Association Cyf

Crane & Staples Solicitors

Crellins Carter Solicitors
Cripps LLP
Crombie WIlkinson Solicitors LLP
Crowe Clark Whitehall LLP
CW Noel & Co
Cyfrifwyr siartredig
Cyngor Cyfiawnder Sifil
Cyngor y Bar
Cymdeithas Bancwyr Prydain
Cymdeithas Cyfraith Elusennau
Cymdeithas Cyfreithwyr Dyfnaint a Gwlad yr Haf
Cymdeithas Cyfreithwyr Harrogate a'r Cylch
Cymdeithas Cyfreithwyr Huddersfield a Dewsbury
Cymdeithas Cyfreithwyr Lerpwl
Cymdeithas Cyfreithwyr Newcastle upon Tyne
Cymdeithas Cyfreithwyr Swydd Gaergrawnt a'r Cylch
Cymdeithas Cyfreithwyr Swydd Northampton
Cymdeithas Tai Hanesyddol
Cymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu
Cymdeithas Technegwyr Trethiant
Cymdeithas y Bar ar Siawnsri
Cymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu
Cymdeithas y Cyfreithwyr
Cymdeithas Ymarferwyr Ymddiriedolaethau ac Ystadau
Cymdeithas Ymddiriedolwyr Corfforaethol
Darwin Bowie Cyf
DBS Law
Dexter Montague LLP
DGB Solicitors LLP
Dominic Mills Cyf
Downs Solicitors
Eccles Heddon LLP
Ellis & Co Solicitors
Elmhirst Parker LLP
Emms Gilmore Liberson
Everett Tomlin Lloyd and Pratt

Ewings & Company Solicitors
Fairweather Stephenson & Co.
Farrer & Co LLP
Ferguson Bricknell
Fiona Bruce LLP
Fishers Solicitors
Flackwoods Solicitors
Foot Anstey LLP
Fosters Solicitors
Franklins Solicitors
Freedman Green Dhokia Solicitors
Frettens LLP
Frisby & Small LLP
Funnell & Perring Solicitors
Gaby Hardwicke Solicitors
Gamlins Law Cyf
Garden House Solicitors
Geldards LLP
Glazer Delmar
Goddard Dunbar & Associates Cyf
Gordon Dadds LLP
Gordons LLP
Gorvins Solicitors
Gru p Ymarferwyr ar eu Pen eu Hunain
Guile Nicholas Solicitors
Hadaway & Hadaway
Hall Barn Consultants Cyf
Hallmark Hulme LLP
Hancock Quins
Harland & Co Solicitors Cyf
Harrowells Cyf
Hartlaw LLP
Hartley & Worstenholme Solicitors
Harvey Copping & Harrison solicitors
Hayes + Storr
Heald LLP

Hegarty LLP Solicitors
Hewitsons LLP
Hibberts LLP
Higgs & Sons
Hill Dickinson LLP Solicitors
Howard Kennedy Solicitors
Howell-Jones LLP
Hugh James LLP
Hugh Jones Solicitors
Hughes & Company
Humphries Kirk LLP
Infields Solicitors
IPR Corporations Cyf
Jackamans
Jackson Barrett and Gass Solicitors
Jennifer Margrave Solicitors LLP
John Kerr Chartered Accountants
Jordans Solicitors
Julie West Solicitor
Keoghs Nicholls Lindsell & Harris Solicitors
Kings Court Trust Cyf
KIRK Process Solutions Cyf
Kirwans Solicitors
Kite Griffin
Kiteleys Solicitors Cyf
Kitsons Solicitors
Knocker & Foskett Solicitors
Kreston Reeves LLP
KWW Solicitors
Lawrence Hamblin Solicitors
LawSkills Cyf
Laytons Solicitors LLP
Leathes Prior Solicitors
Lichfield Reynolds LLP
Lightfoots Solicitors
Lodders Solicitors LLP

Longmores Solicitors LLP
Loosemores
Lovetts Solicitors
Lupton Fawcett Denison Till LLP
Llywodraeth Cymru
Macfarlanes LLP
Maitland Chambers
Marchant Harries, Solicitors
Marsden Rawsthorn Solicitors Lit
Marshalls
Mason-Apps Smallmans & Co
Matthew & Matthew Cyf
Maurice Taunor Gardner LLP
Max Barford & Co Solicitors
Maxwell Hodge Solicitors
Mayo Wynne Baxter LLP
McMillan Williams Solicitors Cyf
Meadows Ryan Solicitors Cyf
Mercers Solicitors
Meriel Ingham
Metcalfe Copeman and Pettefar
MFG Solicitors LLP
Miller Sands Solicitors
Mills & Reeve LLP
Mishcon de Reya LLP
Moerans
Mogers Drewett Solicitors LLP
Moon Beever Solicitors
Moore McCusker Associates
Moore Stephens LLP
Morecrofts LLP
Moreland & Co Solicitors
Morrish Solicitors LLP
Morrisons Solicitors LLP
Mortons Solicitors
Mullis & Peake LLP

Neves Solicitors
New Square Chambers
Nicholls Brimble
Nigel Davis Solicitors
North Yorkshire Law
Ormerods Solicitors
Oxley & Coward Solicitors LLP
P B W Solicitors Ely Cyf
Palmers Solicitors
Parchment Law Group LLP
Parkes Wilshire Johnson
PCB Solicitors
Pearsons & Ward Solicitors
Penmans Solicitors
Penningtons Manches
Pepperells Solicitors
Percy Hughes & Roberts
Peter Peter and Wright Solicitors
PGSLAW LLP Solicitors
Phoenix Legal Group
Pickerings Solicitors – law firm
Pindoria Solicitors
PowellsLaw
Pricewaterhouse Coopers LLP
Purdys Solicitors
Purely Probate Solicitors
PWT Advice LLP Solicitors
QS Rose & Rose
QualitySolicitors Parkinson Wright
QualitySolicitors Paytons
Randall & Phillips Solicitors
Rawlison Butler LLP
Raworths Solicitors
Reddy Siddiqui & Kabani
Richard Reed Solicitors
Richards Reservoir Consulting Cyf

Ringrose Law
RLK Solicitors
Robert Simon & co
Robinson Allfree Solicitors
Roche Legal
Rosalind Watchorn Solicitors
Rowberry Morris Solicitors
Roythornes Cyf
SAS Daniels LLP
Scott Duff & Co
Seakens Solicitors
Sebastians Solicitors
Sefydliad Busnesau Teuluol
Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
Sefydliad Rheoli Etifeddiaethau
Sefydliad Siartredig Gweithredwyr Cyfreithiol
Sefydliad Siartredig Trethiant
Shakespeare Martineau LLP
Sharp Young & Pearce LLP
Shentons Solicitors
Silks Solicitors Cyf
Slater & Gordon
Smith & Graham Solicitors
Smith Sutcliffe Solicitors
Solicitors for the Elderly
Solon & Co Cyf
Spearing Waite LLP
Spink Property
Sproull Solicitors LLP
Star Legal Cyf
Stephens Scown LLP
Stokes Solicitors LLP
Stone King LLP
Storrar Cowdry Solicitors
SWW Trust Corporation
T G Baynes Solicitors

Talbot Walker LLP
Taylor Fawcett
Taylor Fordyce Cyf
Tees Law
Temple Heelis D.R. Cyf
TGAS
Thatcher + Hallam LLP
The Wilkes Partnership
Thomas Coombs
Thomas Eggar
Thompson and Jackson solicitors
Thompson Smith and Puxon Solicitors
Thomson Hayton Winkley Solicitors
Thornes Solicitors
Thursfields solicitors
Timms
TLT LLP
Touch Solicitors
Tozers LLP
Tubbs and Co Solicitors
TWM Solicitors LLP
UHY Hacker Young
Wace Morgan Solicitors
Walter Gray & Co
Wards Solicitors
Ware & Kay Solicitors Cyf
Warner Goodman solicitors
Wedlake Bell
Wheelers Solicitors Cyf
White Rose Wills
Whitehead Monckton Solicitors
Will & Probate Services Cyf
Willans LLP
Willmakers of Maidstone Cyf
Wilmot & Co Solicitors LLP
Wollen Michelmore LLP

Woolley Beardsleys & Bosworth

Wrigleys Solicitors LLP

WSP Solicitors

Sylwer: cawsom 853 o ymatebion a oedd yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd ond enwau sefydliadau'n unig sydd yn y rhestr hon.

ISBN 978-1-4741-4125-3